CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 2il Tachwedd 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mr John W Jones, Mrs Anne Williams, Mrs Rhiannon Jones

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mr Geraint Jones Mr Huw Lloyd, a Mr David Williams

3. **COFNODION CYFARFOD MEDI 7fed, 2018**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Fynwent** – wedi cysylltu a'r teulu ynglŷn a'r 'kerbstone' Yr ymgymerwr wedi cytuno i'w dynnu, ond i gysylltu a'r teulu yn gynta i gadarnahu yr union waith fydd angen ei neud.
   - **Apêl Eisteddfod Yr Urdd 2020** – Y Cyngor penderfynu i drefnu cyfarfod Cyhoeddus yn Llandrillo ar y 15fed o Dachwedd am 7.30.
   - **Gamfa Llwybyr Y Wern** – giât wedi ei osod yn lle y gamfa
   - **Llwybyr Bro Dinam** – gweithiwr wedi gwneud rhan o'r llwybyr.
   - **Problem Pry Lludw (woodlice) yn Bro Dinam –** Dim wedi ei neud ynglŷn a'r broblem. Clerc i gysylltu a'r Sir ac i hysbysu Mabon.
   - **Llif Oleuadau Ar Yr Eglwys –** Clerc wedi cysylltu â Dylan Jones, Corwen. Yn fodlon edrych ar y goleuadau.
   - **Coeden yn Bro Dinam** – dim wedi ei neud ynglŷn â'r goeden. Rhiannon i gysylltu â pwyllgor y Carnifal i osod coeden Nadolig ar stad Bro Dinam, a'r Cyngor Cymuned i sefyll y gost.

5. **GOHEBIAETH**
   - **E-Bost gan Ian Weaver yn** ateb rhes o gwestiynau a godwyd yn glyn â 'Affordable Housing Commuted Sum Payments'. Y cyngor yn teimlo y bod angen mwy o eglurhad, ac yn gofyn i gynrychiolwr i fynychu un o'r cyfarfodydd.
   - **Grwp Cynefin** – Adroddiad Blynyddol – copi ar gael gan y Clerc.
   - **Ysgol Dinas Bran** – yn gofyn am gyfraniad I helpu godi arian tuag at 'Ymchwil y Galon'. Peidio cyfrannu am y tro.

6. **MATERION CYNLLUNIO**
   - **CAIS 07/2018/0901** – *Cais am weithred Amrywiol i ddileu 11 Rhos Helyg o Rwymedigaeth Adran 106 yn ymwneud â darpariaeth tai fforddiadwy mewn cysylltiad*

<u>â chaniatâd cynllunio 07/2004/0805 yn gyfnewid am swm cymudo o £10,000</u> - y clerc wedi cysylltu â adran cynllunio Sir Ddinbych am eglurhad pellach yn ystod y mis, ac wedi cysylltu a'r cynghorwyr yn unigol, cyn datgan nad oedd dim gwrthwynebiad, ond angen mwy o wybodaeth am yr 'Affordable Housing Commuted Sum Payments' (gweler o dan gohebiaeth)

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Rhannu a trafod y Fantolen
   - Wedi derbyn 1 anfoneb
     - Russell Helsby – torri gwair y fynwent (taliad olaf y flwyddyn) - £500 (100100). Clerc i ofyn i Russell i barhau i neud y swydd blwyddyn nesa.
   - **Wedi derbyn 2 siec**
     - £300 am plot claddu.
     - £500 Eglwys Trillo. Gyrru llythyr i ymateb i'w llythyr.

8. **GDPR**
   - Dim materion i'w trafod

9. **LLWYBYR TROED RHOS HELYG –** Mae Becky wedi bod yn edych i mewn i'r llwybr troed o Rhos Helyg trwodd i ffordd y fynwent yn annibynnol dros y misoedd diwethaf a nawr yn gofyn i'r Cyngor Cymuned i fod yn rhan o'r ymchwil. Y cam cyntaf yw profi y bod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio dros 20 mlynedd. Fe gytunodd y Cyngor i gefnogi, ac i'r clerc yrru llythyr i'r adeiladwr yn gyntaf, dan obeithio y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn dilyn y llythyr.

10. **UNRHYW FATER ARALL**
    - **Gwefan y Cyngor Cymuned** – y wefan nawr yn fyw.
    - **Camerâu Cyflymder** – dal heb gael adroddiad yn dilyn gosod y camerâu yn y pentref. Y clerc i ofyn am yr adroddiad.
    - **Llwybr Ferlota Cadwst** – nodyn o ddiolch gan trigolion fod y llwybr wedi ei drwsio

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……